Y DIEITHRYN AR Y FFORDD I EMAUS

Yr un dydd wnaeth Iesu ddod yn ol yn fyw, roedd dau o'i ddisgyblion yn cerdded i bentref Emaus. Roedden nhw yn drist iawn ac yn siarad am bopeth oedd wedi digwydd yn Jerwsalem lle roedd eu Hathro wedi marw. Dyma Iesu ei hun yn dod a cherdded efo nhw a siarad efo nhw am y pethau hynny. Ond wnaethon nhw ddim ei adnabod nes iddyn nhw eistedd i lawr i fwyta. Mi wnaeth o gymryd y bara a gofyn am fendith Duw arno a'i roi iddyn nhw. Y funud honno wnaethon nhw ei adnabod ond fe ddiflannodd o'u golwg.

Ond dyma nhw'n erfyn yn daer arno: "Tyrd i aros gyda ni dros nos; mae'n mynd yn hwyr." Felly aeth i aros gyda nhw. Luc 24:29

Helpa'r ddau ddisgybl ffindio'u ffordd yn ol i Jerwsalem.

Jerwsalem



Emaus

Gwers 26
Y Dieithryn ar y Ffordd i Emaus

Testun y Beibl: Luc 24:13-35

Adnod allweddol: Luc 24:29

Pwrpas: Bydd y plant yn deall y ffaith i Iesu ymddangos i ddau o'r disgyblion tra roedden nhw ar y ffordd i Emaus. Pan dydy Iesu ddim efo ni, rydan ni yn drist. Mae Iesu isio bod yn agos aton ni. Mae o yma efo ni y funud yma trwy'r Ysbryd Glan.

Nodwch os gwelwch yn dda!

Cynlluniwch weithgareddau addas ar gyfer y plant yn eich grwp. Gall y gweithgareddau gael eu haddasu yn dibynnu ar faint, oed a gallu'r grwp, ynghyd a'r amser sydd ar gael.

I Gwers

Cyn gweithio ar y dudalen liwio, dywedwch yr hanes wrth y plant am y ddau ddisgybl oedd yn cerdded i bentref Emaus.

Ar y dydd pan wnaeth Iesu ddod yn ol yn fyw, roedd dau o'i ddisgyblion yn cerdded i bentref Emaus oedd tua 7 milltir o Jerwsalem. Tra roedden nhw'n siarad am y ffaith bod eu hathro wedi marw, daeth Iesu heibio a dechrau cerdded efo nhw. Ond wnaethon nhw ddim ei adnabod. Gofynnodd Iesu am beth oedden nhw'n siarad. Roedden nhw yn synnu wrth glywed ei gwestiynau. Dyma nhw'n trio egluro wrtho am y pethau trist oedd wedi digwydd yn Jerwsalem. Dywedon nhw fel oedd yr offeiriad a'r arweinwyr crefyddol wedi restio Iesu a'i gondemnio i farw ac fel y gwnaeth Iesu gael ei groeshoelio. Roedd y disgyblion yn meddwl mai Iesu oedd y Meiseia oedd wedi dod i achub Israel. Dywedon nhw hefyd bod corff Iesu wedi diflannu o'r bedd. Doedden nhw ddim yn gwybod mai Iesu oedd eu Hathro nhw. Yna dwedodd Iesu wrthyn nhw, "Dach chi mor ddwl! Pam dach chi'n ei chael hi mor anodd i gredu'r cwbl ddwedodd y proffwydi? Maen nhw'n dweud fod rhaid i'r Meseia ddioddef fel hyn cyn iddo gael ei anrhydeddu!" A dyma Iesu'n mynd dros bopeth ac yn esbonio iddyn nhw beth roedd Moses a'r proffwydi eraill wedi ei ddweud amdano yn yr ysgrifau sanctaidd. Pan oedden nhw yn nesu at Emaus, roedd Iesu am fynd yn ei flaen ond dyma nhw'n erfyn yn daer arno: "Tyrd i aros gyda ni dros nos." Felly aeth Iesu i aros gyda nhw. Pan oedden nhw'n eistedd wrth y bwrdd i fwyta, cymerodd dorth o fara ac adrodd gweddi o ddiolch cyn ei thorri a'i rhannu iddyn nhw. Yn sydyn dyma nhw'n sylweddoli mai Iesu oedd gyda nhw, a'r foment honno diflannodd o'u golwg. Er ei bod yn hwyr y nos, teithiodd y disgyblion yn ol i Jerwsalem i ddweud wrth y disyblion eraill beth oedd wedi digwydd. Y foment honno, daeth Iesu a sefyll yn y canol a dweud "Heddwch i chi". Roedd pawb yn hapus iawn fod Iesu efo nhw.

II Gweithgareddau

1. Adnodd allweddol

a) Darllenwch yr adnod yn uchel.

Ond dyma nhw'n erfyn yn daer arno: "Tyrd i aros gyda ni dros nos; mae'n mynd yn hwyr." Felly aeth i aros gyda nhw. Luc 24:29

b) Eglurwch yr adnod.

Mi wnaeth y disgyblion ofyn i Iesu aros efo nhw, ac fe wnaeth hynny. Os dach chi'n gofyn i Iesu aros efo chi, mi wnaiff o wneud hynny.

c) Helpwch y plant i ddysgu'r adnod.

2 Cwestiynau adolygu i'r plant

- Tra roedden nhw'n cerdded i Emaus, oedd y ddau ddisgybl yn pus neu yn drist?
- Pam oedden nhw'n drist?
- Am beth wnaeth Iesu siarad?
- Oedden nhw yn deall bopeth wnaeth Iesu ei ddweud?
- Pryd wnaeth y disgyblion adnabod Iesu?
- Oedden nhw yn credu fod Iesu wedi dod yn ol yn fyw?
- Pam wnaeth y disgyblion fynd yn ol i Jerwsalem?

III Diweddglo

Wyt ti'n yn drist weithiau? Pan wyt ti'n drist efallai nad wyt ti'n sylweddoli fod Iesu efo ti. Mae o eisio siarad efo ti trwy ei air, y Beibl. Mae o eisio I ti wybod be ydy ei ewyllys. Os wyt ti'n darllen y Beibl pan wyt ti'n drist, mi wnei di deimlo yn hapus fel wnaeth y disgyblion pan wnaethon nhw ffindio mai Iesu oedd y dyn dieithr wnaeth gerdded efo nhw ar y ffordd i Emaus. Gall cael Iesu efo ti dy lenwi di efo llawenydd.